GWOBRAU CHWARAEON · SPORTS AWARDS

# Pecynnau Noddi Gwobrau Chwaraeon Conwy



GWOBRAU CHWARAEON SPORTS AWARDS

# Y Digwyddiad

Ers dros 26 o flynyddoedd, mae Gwobrau Chwaraeon Conwy wedi bod yn taflu goleuni ar athletwyr anhygoel ac arwyr sydd heb dderbyn clod Bwrdeistref Sirol Conwy. O sêr ifanc y dyfodol i gystadleuwyr profiadol, mae'r gwobrau hyn yn dathlu'r rhai sy'n gwthio ffiniau rhagoriaeth yn eu camp ddewisol, yn ogystal â'r unigolion ymroddedig sy'n gweithio'n ddiflino y tu ôl i'r llenni i gefnogi clybiau ac athletwyr o un wythnos i'r llall.

Mae Conwy yn gartref i dalent eithriadol, gyda chystadleuwyr yn gwneud argraff ar lwyfannau cenedlaethol, rhyngwladol a hyd yn oed ar draws y byd.  Mae'r digwyddiad mawreddog hwn, a gynhelir bob blwyddyn yn Venue Cymru, prif theatr a lleoliad cynadledda Conwy, yn ddathliad go iawn o ymroddiad, angerdd a chyrhaeddiad mewn chwaraeon.

Cynhelir Gwobrau Chwaraeon Conwy 2025 ddydd Gwener, 21 Tachwedd am 7:30 PM yn Arena Venue Cymru, gan ddod â 400 o westeion ynghyd, yn cynnwys athletwyr, noddwyr a swyddogion gweithredol y Cyngor. Bydd y noson yn cloi drwy gyhoeddi'r enillwyr ar draws 12 categori, gyda'r cyffro yn cael ei ffrydio'n fyw ar Youtube i bawb ei fwynhau.

Ymunwch â ni wrth i ni anrhydeddu'r rhagoriaeth mewn chwaraeon sy'n gwneud Conwy yn falch!




CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

SPORT·CHWARAEON
CONWY

GWOBRAU CHWARAEON
SPORTS AWARDS












CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

SPORT·CHWARAEON
CONWY

GWOBRAU CHWARAEON SPORTS AWARDS

# Categorïau

1. Chwaraewr Iau
2. Chwaraewraig Iau
3. Tîm Chwaraeon Iau
4. Gwirfoddolwr Ifanc
5. Ysgol y Flwyddyn
6. ·Llwyddiant Arbennig
7. Chwaraewr Hŷn
8. Chwaraewraig Hŷn
9. Tîm Hŷn
10. Gwirfoddolwr y Flwyddyn
11. Hyfforddwr Y Flwyddyn
12. Cyfraniad i Chwaraeon




SPORT·CHWARAEON
CONWY

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWOBRAU CHWARAEON
SPORTS AWARDS












SPORT·CHWARAEON
CONWY

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Pam Noddi Gwobrau Chwaraeon Conwy?

## Gwella Gweledd eich Brand

Cyfle i amlygu eich brand i gynulleidfa eang, yn cynnwys athletwyr, clybiau chwaraeon, busnesau lleol a'r cyfryngau.

## Arddangos Ymrwymiad Cymunedol

Dangos eich cefnogaeth i chwaraeon ar lawr gwlad a thalent leol.

## Rhwydweithio ac Ymgysylltu

Cysylltu â ffigyrau dylanwadol yn y gymuned chwaraeon a busnes.

## Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol

Cyfle i osod eich brand ochr yn ochr â gwerthoedd ymroddiad, gwaith tîm a rhagoriaeth.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

SPORT·CHWARAEON
CONWY

# Noddwr y Teitl - £2000

Mae'r lefel nawdd hon yn cynnig y mwyaf o welededd, bri ac ymgysylltiad â chynulleidfa Gwobrau Chwaraeon Conwy.

- Hawliau enwi ar gyfer y seremoni wobrwyo.
- Enw a logo'r cwmni ar yr holl ohebiaeth a chyhoeddusrwydd.
- 2 docyn ar gyfer y seremoni a lletygarwch VIP.
- Proffil a logo'r cwmni yn rhaglen y digwyddiad.
- Proffilio'r cwmni yn araith meistr y seremoni.
- Sylw i'r gwobrau drwy'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol perthnasol.
- Bydd y cwmni'n cael ei grybwyll yn y datganiadau perthnasol i'r wasg.
- Gofod arddangos yn y digwyddiad (rhaid gwneud cais am hwn ymlaen llaw).

GWOBRAU CHWARAEON SPORTS AWARDS

CONWY CYNGOR BWRDEISTREF SIROL COUNTY BOROUGH COUNCIL

SPORT·CHWARAEON CONWY

# Noddi’r Dderbynfa VIP - £1000

Mae Noddwr y Dderbynfa VIP yn lefel nawdd fawreddog sy’n rhoi brandio arbennig yn y dderbynfa VIP, sy’n cael ei fynychu gan westeion proffil uchel, yn cynnwys athletwyr, noddwyr a swyddogion gweithredol y Cyngor.

- Brandio’r cwmni yn yr ystafell dderbyn VIP.
- 2 docyn ar gyfer y seremoni a lletygarwch VIP.
- Proffil a logo’r cwmni yn rhaglen y digwyddiad.
- Proffilio’r cwmni yn araith meistr y seremoni.
- Sylw i’r gwobrau drwy’r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol perthnasol.
- Bydd y cwmni’n cael ei grybwyll yn y datganiadau perthnasol i’r wasg.
- Gofod arddangos yn y digwyddiad (rhaid gwneud cais am hwn ymlaen llaw).



SPORT·CHWARAEON CONWY

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Noddi Categori - £500

Drwy noddi categori penodol yn y gwobrau, fel “Tîm Chwaraeon Iau” neu “Hyfforddwr y Flwyddyn,” bydd eich sefydliad/busnes yn cael ei gysylltu’n uniongyrchol â dathlu talent a chyrhaeddiad rhagorol.

- 2 docyn ar gyfer y seremoni a lletygarwch VIP.
- Bydd logo’r cwmni’n cael ei ddefnyddio ar yr holl ddeunydd sy’n ymwneud â’i gategori.
- Bydd y cwmni’n cael ei grybwyll yn y datganiadau perthnasol i’r wasg.
- Proffil a logo’r cwmni yn rhaglen y digwyddiad.
- Proffilio’r cwmni yn araith meistr y seremoni.
- Sylw i’r gwobrau drwy’r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol perthnasol.
- Gofod arddangos yn y digwyddiad (rhaid gwneud cais am hwn ymlaen llaw).




SPORT·CHWARAEON
CONWY

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWOBRAU CHWARAEON SPORTS AWARDS

# Noddi'r Gŵr Gwadd - £500

Mae'r Gŵr Gwadd fel arfer yn ffigwr adnabyddus yn y byd chwaraeon, rhywun sy'n ymgorffori rhagoriaeth, cyrhaeddiad ac ysbrydoliaeth. Er enghraifft, yr athletwr Dycnwch Sean Conway yng Ngwobrau Chwaraeon Conwy 2024.

- Llun yn y digwyddiad gyda'r gŵr gwadd.
- 2 docyn ar gyfer y seremoni a lletygarwch VIP.
- Bydd y cwmni'n cael ei grybwyll yn y datganiadau perthnasol i'r wasg.
- Proffil a logo'r cwmni yn rhaglen y digwyddiad.
- Proffilio'r cwmni yn araith meistr y seremoni.
- Sylw i'r gwobrau drwy'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol perthnasol.
- Gofod arddangos yn y digwyddiad (rhaid gwneud cais am hwn ymlaen llaw).




CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

SPORT·CHWARAEON
CONWY

GWOBRAU CHWARAEON SPORTS AWARDS

# Noddi’r Adloniant - £300

Mae’r Noddwr Adloniant yn chwarae rhan allweddol mewn gwella profiad cyffredinol y digwyddiad drwy gefnogi’r adloniant byw.

- 2 docyn ar gyfer y seremoni a lletygarwch VIP.
- Bydd y cwmni’n cael ei grybwyll yn y datganiadau perthnasol i’r wasg.
- Proffil a logo’r cwmni yn rhaglen y digwyddiad.
- Proffilio’r cwmni yn araith meistr y seremoni.
- Sylw i’r gwobrau drwy’r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol perthnasol.
- Gofod arddangos yn y digwyddiad (rhaid gwneud cais am hwn ymlaen llaw).




CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

SPORT·CHWARAEON
CONWY

# Noddi Bwrdd - £100

Noddwch fwrdd yng Ngwobrau Chwaraeon Conwy i fod yn rhan o ddathliad blynyddol cyflawniad y byd chwaraeon yng Nghonwy. Mae'n gyfle gwych i hyrwyddo eich busnes, rhwydweithio gyda'r gymuned leol a dangos eich cefnogaeth i dalentau lleol yn y byd chwaraeon.

- Logo'r cwmni ar y rhestr fyrddau a'r cynllun bwrdd.
- Nwyddau'r cwmni ar y bwrdd.
- Logo'r cwmni yn rhaglen y digwyddiad.
- 2 docyn ar gyfer y seremoni.
- Gofod arddangos yn y digwyddiad (rhaid gwneud cais am hwn ymlaen llaw).



# Presenoldeb yn y Cyfryngau Cymdeithasol













CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

SPORT·CHWARAEON
CONWY

GWOBRAU CHWARAEON SPORTS AWARDS






# Cymerwch Ran:

**Rydym yn eich gwahodd i fod yn rhan o'r dathliad mawreddog hwn o lwyddiant mewn chwaraeon.**

**I drafod y cyfleoedd noddi, cysylltwch â:**
**Caroline Jones, Rheolwr Datblygu Hamdden - caroline.jones@conwy.gov.uk - 01492 575557**

**Ymunwch â ni i ddathlu cymuned chwaraeon rhagorol Conwy a chreu argraff barhaol!**

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

SPORT·CHWARAEON
CONWY